**Lesley Griffiths AC/AM**
**Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi**
**Minister for Communities and Tackling Poverty**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-598
Ein cyf/Our ref LG/05158/14

William Powell AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

committeebusiness@Wales.gsi.gov.uk

Hydref 2014

Diolch am eich llythyr dyddiedig 30 Medi ynghylch y ddeiseb gan Visualise Training and Consultancy, sy'n galw am wneud hyfforddiant ymwybyddiaeth am anabledd yn orfodol ym mhob sefydliad sy'n darparu gwasanaeth cwsmeriaid wyneb yn wyneb.

Fel y mae'r ddeiseb yn cydnabod, mae dyletswydd eisoes ar y rhai sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd i wneud addasiadau rhesymol yn eu darpariaeth fel nad oes anfantais sylweddol i ddefnyddwyr anabl o gymharu â phobl nad ydynt yn anabl. Mae'r ddyletswydd hon yn cwmpasu darparwyr gwasanaethau sector preifat a chyhoeddus.

Mae'r gyfraith yn caniatáu i ddarparwyr gwasanaethau eu hunain ddod o hyd i'r ffordd orau o sicrhau eu bod nhw a'u staff yn medru gwneud addasiadau rhesymol yn eu cyd-destun penodol. Gall hyn fod drwy hyfforddiant neu drwy ddull arall, gan ddibynnu ar natur y gwasanaeth.

Mae gan y Cynulliad bwerau i ddeddfu ynghylch cyfle cyfartal mewn perthynas â sector cyhoeddus datganoledig Cymru, tra bod gan Lywodraeth Cymru bwerau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i osod dyletswyddau ar awdurdodau cyhoeddus Cymru i'w helpu i gyflawni dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn adran 149 o'r Ddeddf honno.

Mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio'r pŵer hwnnw i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus Cymru wneud trefniadau priodol i hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus, ac i ddefnyddio unrhyw ddulliau o asesu perfformiad sydd ar gael i ddod o hyd i anghenion hyfforddiant eu gweithwyr a rhoi sylw i hynny dan y ddyletswydd honno.

Ar ben y ddarpariaeth uchod, barn Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yw y dylid parhau i ganiatáu disgresiwn a hyblygrwydd i awdurdodau cyhoeddus Cymru yn y ffordd y maent yn sicrhau bod eu staff yn medru cydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb, sydd wrth gwrs yn cwmpasu nifer o nodweddion gwarchodedig. Rydym o'r farn na fyddai modd i ofynion hyfforddi penodol roi ystyriaeth i'r amrywiaeth o wasanaethau sy'n cael eu darparu gan amrywiol awdurdodau cyhoeddus, na'r ffyrdd y mae angen addasu gwasanaethau penodol er mwyn iddynt fod yn hygyrch i ddefnyddwyr anabl.

Nid yw cyfle cyfartal y tu hwnt i sector cyhoeddus Cymru yn faes sydd wedi'i ddatganoli.

**Lesley Griffiths AC / AM**
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi
Minister for Communities and Tackling Poverty